

# Bore Coffi 'Doli yn ei Blodau'

Ar fore Sadwrn braf a bendigedig ar Awst y 4<sup>ydd</sup>, bu i aelodau Dolwyddelan yn ei Blodau a mabwysiadwyr yr Orsaf gynnal eu bore coffi blynyddol ym maes parcio'r orsaf.

Bu Larry Davies o Landudno yn ŵr gwadd a bu iddo ddadorchuddio 2 blac newydd ar blatfform yr orsaf. Bu Larry yn Swyddog Rheilffordd Dyffryn Conwy nes iddo ymddeol oddeutu 2 flynedd yn ôl. Mae Larry yn mwynhau ymweld â Dolwyddelan ac mae'n adnabod llawer o drigolion yr ardal gan y bu'n gweithio fel Arolygydd yr Heddlu ym Mlaenau Ffestiniog.

Roedd Dave Crunkhorn, Rheolwr Gorsafoedd Arriva yn bresennol ynghyd â Mel Lawton, Swyddog Rheilffordd Dyffryn Conwy presennol. Hefyd bu i Gyngorydd Phil Evans o Landudno ymuno gyda ni ynghyd â chyd-fabwysiadwyr gorsafoedd o Landudno a Thal y Cafn.

Mae'r placiau newydd, wedi eu noddî'n garedig iawn gan drenau Arriva, yn arddangos y gwobrau bu i Ddolwyddelan yn ei Blodau fel Mabwysiadwyr Gorsaf Lwyddo eu hennill. Sef:-

## **Enillwyr Gwobr Genedlaethol Prydain yn 2007 ac 2010**

### **Enillwyr Trenau Arriva Cymru yn 2011**

Bu i JTM Signs o Ruddlan gynhyrchu'r arwyddion. Nhw ydy'r cwmni sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r holl arwyddion melyn ar y priffyrdd!

Roedd yn braf gweld cymaint o bobl yn ymuno gyda ni yn y digwyddiad i ddathlu. Yn dilyn y stondinau gwerthu cacenni a bric-a-brac ym maes parcio'r orsaf, bu i bawb fynd draw i'r Pafiliwn i fwynhau paned ac i dynnu'r raffl. Cafodd y gwobrau eu rhoddi'n garedig gan yr aelodau, cwmnïau amrywiol a gwestai yn y pentref. Rydw i'n credu y bu inni gasglu cyfanswm o £200 ar y diwrnod.

Mae'n bosib y bu ichi hefyd sylwi ar yr hen wagen chwarel wedi ei osod ar ran o reilffordd ar y platfform. Cafodd y rhain eu rhoddi'n garedig gan Darren a Christine Jones o gwmni **D & C JONES Civil Engineers Bl Ffestiniog** sy'n byw yn Llys-y-Gwynt yn y pentref. Roedd yn ddrwg ganddyn nhw nad oedd modd iddyn nhw ymuno gyda ni ar y diwrnod.

Hoffai Dolwyddelan yn ei Blodau ddiolch i bawb wnaeth gefnogi'r diwrnod a diolch yn fawr iawn ichi gyd am eich cefnogaeth barhaus.

Mae 'Doli in Bloom' bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i ymuno â'r grŵp!!

